homes4u

# Tudalen Wybodaeth



# Trosolwg o Homes4U

Mae hysbyseb Homes4U Bro Morgannwg yn hysbysebu eiddo ar ran ein pedwar aelod cyswllt Cymdeithas Tai yn ogystal ag eiddo'r Cyngor.

Mae'r holl eiddo yn cael eu hysbysebu gyda'i gilydd a gellir eu nodi drwy benynnau o wahanol liwiau.

Ein haelodau Cymdeithasau Tai yw United Welsh, Cymdeithas Tai Newydd, Cymdeithas Tai Hafod a Chymdeithas Tai Wales and West.

Mae'r cynllun Homes4U yn cynnig cyfle mwy i ymgeiswyr benderfynu ar yr ardal y dymunant fyw ynddi.

Mae Homes4U yn helpu i ddatblygu cymunedau cynaliadwy ym Mro Morgannwg. Mae'r cynllun yn galluogi ymgeiswyr i:

- Wneud ceisiadau ar gyfer cartrefi maent yn dymuno byw ynddynt yn wirioneddol
- Canolbwyntio ar ddewisiadau yn hytrach na phwyntiau
- Gwneud ceisiadau ar gyfer cartrefi mewn ardaloedd y maent yn dymuno byw ynddynt

Ar ôl i chi gofrestru gyda Homes4U, byddwn yn anfon llythyr yn y post i chi yn rhoi gwybod am y band a ddyrannwyd i chi. Mae pedwar grŵp bandio – Aur a Mwy (sy'n cynnwys blaenoriaethau meddygol), Aur, Arian ac Efydd.

## Sut i wneud cais?

Gallwch wneud cais ar gyfer Homes4U ar-lein yn www.valeofglamorgan.gov.uk a cliciwch y botwm 'Tai. Os nad oes gennych gyfrifiadur y gallwch ei ddefnyddio, cysylltwch â Thîm Homes4U ar 01446 700111

Mae hysbyseb Homes4U yn mynd allan bob pythefnos ar ddydd Iau ac yn cau ar y dydd Mercher canlynol am 5pm.

## Ble i wneud cais?

Mae staff yn rhoi copïau o'r hysbyseb wrth y dderbynfa yn y Swyddfeydd Dinesig, yn y papur newydd The Gem ac ar-lein bob tro.

## Sut i ymgeisio am lety?

**I ymgeisio am lety, ffoniwch Ganolfan Gyswllt Un Fro ar 01446 700111**

neu... **Anfonwch neges e-bost i - HOMES4U@valeofglamorgan.gov.uk**

neu... **Wrth Dderbynfa Adran Tai, Swyddfeydd Dinesig, y Barri CF63 4RU**

Bydd gofyn i chi ddyfynnu eich rhif cyfeirnod Homes4U a'r llety rydych yn ymgeisio amdanynt yn nhrefn eich dewis.

**SYLWER: Pan roddir ymgeisydd mewn llety dros dro, er mwyn lleddfu'r ddyletswydd ddyladwy o ran digartrefedd, bydd Homes4U yn ymgeisio ar ei ran ar gyfer pob eiddo sy'n briodol ac o faint addas o fewn ffiniau'r Fro.**

